**Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd dros Zoom ar 14 Hydref 2022**

**Yn bresennol**
Julia Hughes – JH (Cadeirydd)
Sally Ellis – SE (Dirprwy Gadeirydd)
Gill Murgatroyd – GM
Gareth Pritchard – GP

Matt Georgiou – MG (Dirprwy Swyddog Monitro/Clerc)
Lisa Allington – LJA (Swyddog Cyswllt Aelodau)

**Ymddiheuriadau**
Y Cyng. John Brynmor Hughes, Cyngor Gwynedd

**Yn absennol**
Y Cyng. Marion Bateman, Cyngor Sir y Fflint

---

1 **YMDDIHEURIADAU**

1.1 Cynigiwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau ar ran y Cyng. John Brynmor Hughes. Nid oedd y Cyng. Marion Bateman yn bresennol.

**2 DATGAN BUDDIANNAU**

2.1 Dim.

**3 RHYBUDD O FATERION BRYS**

3.1 Dim.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

4.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2022 eu cymeradwyo yn gofnod cywir.

**5 MATERION YN CODI**

5.1 Paragraff 7.5 – roedd y gofyniad am 50% o leiaf o bresenoldeb wedi cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ac o ran atgoffa Awdurdodau Lleol am yr hyn a ddisgwylid, anfonwyd neges e-bost at bob Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Cydnabuwyd y byddai wedi bod yn well gwneud hyn yn gynt ac ymddiheurwyd am hyn.

5.2 O ran paragraff 8.2 – ar ôl ystyried y materion a godwyd yn y ddogfen, cytunwyd i wneud newidiadau i edrychiad y ddogfen ac yna i'w

rhannu gyda Chadeiryddion yr ATA a'r holl aelodau yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol. Awgrymwyd hefyd fod Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgorau Safonau yn dechrau cwrdd â Chadeiryddion yr ATA a'i Bwyllgorau o hyn ymlaen er mwyn datblygu perthynas – nid yw hyn wedi'i roi ar waith eto ond cydnabuwyd bod angen symud ymlaen â hyn. Cytunwyd i drafod hyn ymhellach o dan Eitem 11 ar yr Agenda.

5.3 O ran eitem 11.5(iii), roedd gan y Clerc nifer o gyfarfodydd ynglŷn â'r modd roedd Llywodraeth Cymru yn gweithredu materion yn deillio o adolygiad Penn, ac roedd wedi gwneud hyn yn glir yn ystod y trafodaethau hynny. Mae'n bosibl hefyd y daw ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad ffurfiol gan Lywodraeth Cymru.

5.4 Paragraff 7.4 – trafodwyd y dylai methu â mynychu unrhyw gyfarfodydd o fewn cyfnod o dri mis arwain at anfon llythyr rhybudd at y Cynghorydd. Cytunwyd y dylid aralleirio hyn i ddweud 'Dylai unrhyw Gynghorydd y mae ei bresenoldeb wedi gostwng islaw'r trothwy isaf, sef 50% o bresenoldeb mewn unrhyw gyfarfod o fewn cyfnod o dri mis, gael llythyr rhybudd, ynghyd â rhoi gwybod i Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd yr awdurdod perthnasol. Fodd bynnag, dylid ystyried unrhyw amgylchiadau personol hysbys neu faterion meddygol, a defnyddio disgresiwn ynghylch a yw llythyr yn briodol yn yr amgylchiadau.

5.5 Eglurwyd bod y penderfyniad hwn yn cynnwys holl gyfarfodydd unrhyw bwyllgor, yn ogystal â'r cyfarfod o'r Awdurdod Tân llawn. Fodd bynnag, gan nad oedd Aelodau Annibynnol yn derbyn cyflog os nad oeddent yn mynychu cyfarfod, roedd y Pwyllgor Safonau ei hun wedi'i eithrio o'r penderfyniad hwn.

5.6 Holodd un aelod a oedd mecanwaith yn bodoli i symud Aelod Annibynnol a oedd wedi dod yn destun pryder, a'r ateb oedd nad oedd mecanwaith. Nodwyd na allai'r Pwyllgor hwn sefydlu hyn gan mai mater statudol oedd cyfnod Aelodau Annibynnol.

5.7 **Penderfynwyd:**
**i) diwygio cofnodion cyfarfod 10 Chwefror 2022 fel y nodir uchod.**

## 6 ADBORTH AR Y DIWRNOD cYNEFINO I AELODAU YM MEHEFIN 2022 (AR LAFAR)

6.1 Cynhaliwyd Diwrnod Cynefino yng Ngorsaf Dân y Rhyl ym mis Mehefin 2022 pan roedd yr holl Brif Swyddogion wedi mynychu ac wedi rhoi trosolwg o'u meysydd cyfrifoldeb (gorchwylion). Rhoddwyd cyflwyniad gan y Clerc hefyd, ar faterion llywodraethu. Teimlai'r Dirprwy Glerc i'r

diwrnod gynefino fod yn effeithiol iawn a'i fod wedi rhoi dealltwriaeth dda o ochr weithredol y Gwasanaeth Tân.

6.2 Yna, cynhaliwyd ail Ddiwrnod Cynefino ar 06 Hydref 2022 fel sesiwn 'gwblhau' i alluogi aelodau nad oedd wedi gallu dod i'r cyfarfod ym mis Mehefin i dderbyn yr un sesiwn gynefino. Nodwyd nad oedd chwe Chynghorydd wedi dod ar y naill ddyddiad na'r llall.

6.3 Roedd yr aelodau o'r Pwyllgor Safonau a fynychodd y sesiwn gynefino ym mis Mehefin o'r farn fod y profiad yn arbennig o werthfawr, gan ei fod wedi eu galluogi i gael dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r Gwasanaeth yn gweithio ac wedi cael cwrdd â staff allweddol.

6.4 Roedd y Clerc wedi cael cadarnhad fod holl Aelodau'r Awdurdod Tân wedi cwblhau eu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad gyda'u Cynghorau eu hunain.

6.5 Awgrymwyd y dylid recordio'r Sesiynau Cynefino hyn yn y dyfodol. Byddai modd wedyn i'r Aelodau weld y recordiad fel y bo angen.

6.6 **PENDERFYNWYD:**
**i) holi a oedd cynlluniau i drefnu Diwrnod Cynefino arall i gynnwys y chwe Chynghorydd nad oedd wedi mynychu'r naill ddyddiad na'r llall (LJA)**

7 **YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GREU FFORWM SAFONAU CENEDLAETHOL**

7.1 Roedd yr eitem hon yn ymwneud ag argymhelliad gan Adolygiad Penn, a chadarnhwyd bod cynnydd wedi bod o ran y mater a bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) wedi cytuno i weithredu fel Ysgrifenyddiaeth yn y cyfarfodydd. Byddai'r aelodau'n cynnwys Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau, neu Is-Gadeiryddion fel dirprwyon, ac roedd Cylch Gorchwyl wedi'i ddosbarthu i Swyddogion Monitro yn dilyn cyfarfod o'r Grŵp Swyddogion Monitro a gynhaliwyd yn ddiweddar.

7.2 **PENDERFYNWYD**
**i) croesau'r gefnogaeth i Fforwm Safonau Cenedlaethol**
**ii) darparu gwybodaeth am yr eitem hon yn y cyfarfod nesaf, yn arbennig o ran y Cylch Gorchwyl (MG)**
**iii) dosbarthu adborth o gyfarfodydd y fforwm i aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn dilyn y cyfarfodydd hynny (MG)**

8 **ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU 2021/22 (AR LAFAR)**

8.1 Rhoddwyd trosolwg byr o'r adroddiad.

8.2 Gofynnwyd beth oedd yn ddisgwyliedig gan y Pwyllgor hwn o ran y materion hyn, gan fod lefel isel iawn o weithgarwch o ran aelodau Awdurdodau Tân, ac atebodd y Dirprwy Swyddog Monitro MG fod ymwybyddiaeth o gynnwys yr adroddiad yn berthnasol, fel Pwyllgor Safonau.

8.3 Cadarnhawyd y byddai unrhyw faterion a oedd yn ymwneud â'r Awdurdod Tân yn cael sylw mewn adroddiadau yn y dyfodol.

8.4 Yr unig bryd y byddai materion yn ymwneud yn benodol ag Aelodau'r Awdurdod Tân, ac ymddygiad a oedd yn effeithio ar yr Awdurdod Tân yn uniongyrchol, yn cael eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Safonau oedd petai'r Ombwdsmon o'r farn y byddai'n briodol gwneud hynny.

8.3 **PENDERFYNWYD:**
**i) holi a fyddai'r Ombwdsmon yn cael gwybod os oedd Cynghorydd yn Aelod o Awdurdod Tân hefyd pan fyddai cwynion yn cael eu gwneud, a dosbarthu'r ymateb i'r Pwyllgor ar ôl cael eglurhad (MG)**

## 9 ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2021/22

9.1 Cafodd yr adroddiad ysgrifenedig ei drafod yn gryno a thynnwyd sylw at yr ystadegau. Nodwyd bod 20% o'r materion yr ymchwiliwyd iddynt wedi cael eu hatgyfeirio naill ai at Banel Dyfarnu Cymru neu at Bwyllgorau Safonau; 11 achos at Bwyllgorau Safonau a 9 achos at Banel Dyfarnu Cymru, sef yr uchaf ers 2012/13.

9.2 Holodd un Aelod a allai'r cynnydd fod yn gysylltiedig â phrinder hyfforddiant priodol ar y Cod Ymddygiad. Ymatebwyd mai'r farn oedd nad dyna'r sefyllfa, ac y dylai Cynghorydd fod wedi derbyn, neu fod wedi cael cynnig, hyfforddiant ar y Cod gan ei Awdurdod Lleol perthnasol a bod yn gwbl ymwybodol o'r disgwyliadau sy'n cyd-fynd â'i rôl a'r rhwymedigaethau o dan y Cod.

9.3 **PENDERFYNWYD:**
**i) nodi'r adroddiad**
**ii) bod y Dirprwy Glerc yn chwilio am enghreifftiau o gwynion sy'n ymwneud ag aelodau o Awdurodau Tân er mwyn adrodd yn eu cylch i'r Pwyllgor (MG)**

## 10 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – CYHOEDDIAD EIN CANFYDDIADAU

10.1 Teimlid bod yr adroddiad hwn yn llawer mwy defnyddiol i Aelodau'r Pwyllgor Safonau nag y bu'r Coflyfrau Chwarterol. Roedd adnodd ar

gael ar wefan Ombwdsmon Cyhoeddus Cymru hefyd, i alluogi aelodau o'r cyhoedd i chwilio am achosion penodol.

10.2 Roedd yr adroddiad yn cynnwys themâu yr oedd y Dirprwy Glerc o'r farn eu bod yn allweddol a pherthnasol i'r Pwyllgor.

10.3 Trafodwyd a ddylid dosbarthu'r canfyddiadau hyn i aelodau ehangach yr Awdurdod Tân, ynghyd â'r dolenni at wefan yr Ombwdsmon.

10.4 Diolchwyd i'r Dirprwy Glerc am lunio dogfen mor gynhwysfawr, gan ddweud bod y crynodebau o'r themâu yn ddefnyddiol iawn.

10.5 **PENDERFYNWYD:**
**i) bod y Dirprwy Glerc yn trefnu i ohebiaeth gael ei hanfon at holl Aelodau'r Awdurdod, yn nodi'r themâu a ganfuwyd yn yr adroddiad hwn, ynghyd â dolen at 'Ein Canfyddiadau' fel y gall yr aelodau gael gafael ar y crynodeb o'r achosion, er gwybodaeth.**

11 **BLAENGYNLLUN GWAITH**

11.1 Cynhaliwyd trafodaeth fanwl am gynnwys y Blaengynllun Gwaith.

11.2 Yn unol â'r cynllun, byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn Chwefror/Mawrth 2023. Nid oedd yn hysbys a fyddai cyfarfod o'r Fforwm Safonau Cenedlaethol yn cael ei gynnal cyn y cyfarfod hwnnw. Pwysleisiwyd i'r rhai a oedd yno fod rhaid i'r cynllun hwn adlewyrchu dymuniadau'r Pwyllgor, felly dylid tynnu unrhyw beth sy'n ddiangen yn eu barn nhw.

11.3 Pwysleisiwyd mor bwysig yw: adborth i'r Awdurdod Tân am arsylwadau o gyfarfodydd a gynhaliwyd; adborth arall; cyfeiriad at bresenoldeb yr Aelodau; a chysylltu â Phwyllgorau Safonau eraill.

11.4 Trafodwyd diwyg y cyfarfodydd a oedd wedi cael eu trefnu rhwng Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Safonau, Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Tân a Chadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor au Archwilio. Cytunwyd y byddai'n briodol cynnal un cyfarfod i gynnwys yr holl Gadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion, a byddai angen i'r Dirprwy Glerc a'r Swyddog Cyswllt Aelodau fod yn bresennol. Dylid cynnal y cyfarfod ym mis Tachwedd, os oes modd.

11.5 Awgrymwyd cynnig yn y cyfarfod hwn fod Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau yn arsylwi ar un cylch llawn o gyfarfodydd yr Awdurdod Tân, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio.

11.6 Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oedd cydnabyddiaeth ariannol yn gymwys am arsylwi ar gyfarfodydd.

11.7 Er mwyn cadw'r costau'n is o ran cydnabyddiaeth ariannol, os yw hyn yn gymwys, cytunwyd mai dim ond un Aelod Annibynnnol o'r Pwyllgor Safonau a fyddai'n arsylwi ar bob cyfarfod, ac y byddai'r sawl a fyddai'n arsylwi ar gyfarfod yn cael ei bennu yn dilyn y cyfarfod o'r Cadeiryddion a'r Dirprwy Gadeiryddion ym mis Tachwedd.

11.8 Trafodwyd a ddylid arsylwi ar gyfarfod yr ATA ar 17 Hydref, oherwydd byddai hyn yn digwydd cyn cael y sgwrs gyda'r Cadeiryddion. Cytunwyd y gellid arsylwi ar recordiad o'r cyfarfod, yn dilyn cymeradwyaeth y Cadeiryddion.

11.9 Dyma'r polisïau a oedd wedi cael eu hadolygu'n flaenorol – Protocol Rhoddion a Lletygarwch Aelodau a Gweithwyr; Polisi Cysylltiadau rhwng Aelodau a Gweithwyr; Polisi Cyfryngau Cymdeithasol, Gweithdrefn Gwynion o ran Cynghorwyr; Polisi Chwythu'r Chwiban. Cytunwyd y byddai'r polisïau hyn yn dod yn rhan o'r Blaengynllun Gwaith yn unol â phryd y cawsant eu hadolygu'n flaenorol (yr olaf i gael ei adolygu fydd yn cael ei adolygu yn gyntaf, ac ati) yn ddibynnol ar gael eglurhad gan y Dirprwy Glerc a oedd y protocol Rhoddion a Lletygarwch o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio erbyn hyn.

11.10 **PENDERFYNWYD:**
**i) ychwanegu adborth o'r Fforwm Safonau Cenedlaethol i'r Blaengynllun Gwaith (MG)**
**ii) ychwanegu 'Adolygiad o'r Adroddiad Blynyddol Drafft' at y Blaengynllun Gwaith ar gyfer Chwefror/Mawrth (MG)**
**iii) trefnu cyfarfod ar gyfer Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor i gwrdd â holl Gadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion pwyllgorau ar yr un pryd (MG/LJA)**
**iv) egluro'r sefyllfa o ran cydnabyddiaeth ariannol am arsylwi ar gyfarfodydd (MG)**
**v) rhoi crynodeb o adborth ar arsylwadau ar gyfarfodydd yr awdurdod gan Aelodau Annibynnol yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau yn y Gwanwyn (Pawb)**
**vi) rhoi adolygu polisïau/gweithdrefnau yn rhan o'r Blaengynllun Gwaith (MG)**

12 **MATERION BRYS**

12.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w codi.

12.2 **Nid oedd unrhyw benderfyniadau am yr eitem hon.**

13 Nid oedd dyddiad y cyfarfod nesaf wedi cael ei gadarnhau eto, ond byddai'n cael ei gynnal yn Chwefror/Mawrth. Cytunwyd y byddai'r dyddiad ym Medi/Hydref 2023 yn cael ei drefnu cyn gynted â phosibl hefyd.

13.1 **PENDERFYNWYD:**
**i) trefnu dyddiadau ar gyfer y cyfarfodydd yn Chwefror/Mawrth a Hydref 2023 a'u dosbarthu i'r Aelodau (MG/LJA)**

14.0 Diolchwyd i'r Aelodau am eu presenoldeb ac am eu cyfraniad i'r cyfarfod.